# Pecyn cymorth i ysgolion a cholegau

## Sefydlu eich cymuned alumni



Future First

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Rhagair Gweinidogol

Credwn mai ein hasedau gorau yw ein pobl ifanc, a thrwy feithrin y doniau sydd gennym yn ein cymuned gallwn greu mwy o gyfleoedd iddynt, yn ogystal â chryfhau ein cymunedau.

Dyna, yn gryno, yw'r egwyddor sydd wedi sbarduno ein menter i annog pob ysgol gyfun yng Nghymru i sefydlu rhwydwaith o gyn-ddisgyblion i helpu eu hen ysgolion i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion presennol.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r pecyn cymorth hwn sydd wedi'i ddatblygu gan yr elusen Future First i helpu ysgolion i gyflwyno rhaglen newydd Llywodraeth Cymru i gyn-ddisgyblion. Mae gan Future First 10 mlynedd o brofiad o weithio gydag ysgolion a cholegau, yn unigol ac yn rhanbarthol, ledled Cymru a Lloegr.

Ers 2016 mae Tasglu'r Cymoedd wedi edrych yn fanwl ar sut y gellir gwella canlyniadau i bobl ifanc yng nghymunedau ein Cymoedd, sut i godi dyheadau, a sut i hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Yn ystod ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned, dywedodd pobl ifanc wrthym ei bod yn anodd dilyn gyrfaoedd gwahanol os nad oes gennych brofiad ohonynt. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyflogwyr yn aml yn darganfod nad oes gan bobl ifanc ddealltwriaeth sylfaenol o'r gweithle a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyfer rolau penodol. Dywedodd athrawon wrthym ei bod yn aml yn anodd sicrhau profiad gwaith i bobl ifanc gan nad yw bellach yn orfodol a chytunodd athrawon a disgyblion ei bod yn bwysig i fyfyrwyr gael pobl i roi esiampl iddynt a oedd wedi profi'r un problemau a rhwystrau â hwy.

Mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r broblem hon.  Mae effaith cau ysgolion, a'r rhwystrau a achoswyd gan gyfyngiadau symud lleol, gan orfodi busnesau lleol llai i gau, wedi golygu bod y rhai sy'n gadael yr ysgol yn teimlo'n llai parod ar gyfer byd gwaith nag ar unrhyw adeg arall mewn hanes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag entrepreneuriaid, busnesau bach ac ysgolion uwchradd i adolygu'r gwaith presennol yn y maes hwn i ddatblygu cynllun a all helpu pobl ifanc i fanteisio ar esiamplau lleol a chyn-ddisgyblion o'u hardaloedd eu hunain, yn enwedig o'u hysgolion uwchradd eu hunain, er mwyn agor llwybrau at yrfaoedd nad ydynt efallai'n ymwybodol ohonynt neu nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad atynt. Gall esiamplau lleol dynnu sylw at amrywiaeth o yrfaoedd sy'n agored iddynt a rhoi cyfle iddynt ddysgu am brofiadau bywyd pobl sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gyrfaoedd y gwnaethant eu dewis. Y nod yw fod pob disgybl ysgol uwchradd o bob rhan o'r Cymoedd yn gallu cael gafael ar gyngor, cymorth a chyfleoedd gyrfa er mwyn ffynnu yn y sector neu'r llwybr gyrfa y maen nhw'n ei ddewis.

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn ganllaw cam wrth gam i'ch ysgol sefydlu ei chynllun alumni ei hun. Mae'n cynnwys adnoddau ac enghreifftiau o 'fywyd go iawn' o wahanol fathau o gynlluniau yn ogystal â thempledi y gall ysgolion eu defnyddio i recriwtio cyn-ddisgyblion a chreu diddordeb ymhlith disgyblion presennol.
Ceir gwybodaeth am ddiogelu a GDPR, ac mae canllawiau ar sut i fanteisio i'r eithaf ar gynllun cyn-ddisgyblion, drwy ddefnyddio cyfleoedd i gysylltu'n rhithwir ar adeg pan fo cyfyngu ar gyswllt wyneb yn wyneb.

Er mwyn rhoi prawf ar gysyniad y cynllun Cyn-ddisgyblion, comisiynwyd Gyrfa Cymru hefyd i ddatblygu gwaith dwys gyda charfan gychwynnol o 10 ysgol yng Nghymoedd De Cymru sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan. Cawsant eu comisiynu i gysylltu cyn-ddisgyblion â disgyblion presennol ysgolion uwchradd, gyda'r nod o dynnu sylw at amrywiaeth o lwybrau a gyrfaoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r cyn-ddisgyblion hefyd yn wirfoddolwyr, ac maent wedi cael eu recriwtio i ddarparu cyngor a mentora,i rannu eu profiadau bywyd a hwyluso gweithdai gyda phobl ifanc.

Dros y misoedd nesaf bydd Gyrfa Cymru yn asesu llwyddiant y cynllun a bydd y Pecyn Cymorth hwn yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu canfyddiadau'r astudiaeth o'r garfan gychwynnol. Mae'r cynllun wedi'i addasu i gyd-fynd â chyfyngiadau Covid-19. Er enghraifft, mae sesiynau 1:1 wedi'u symud i fod yn sesiynau digidol ac mae gweithdai wedi'u recordio o flaen llaw, gan sicrhau y bydd disgyblion a fethodd gyfleoedd yn ystod y pandemig yn dal i gael mynediad at gyngor ac arweiniad o ran gyrfaoedd.

Mae ffilm fer yn cyd-fynd â'r Pecyn Cymorth sy'n cynnwys trafodaeth banel holi ac ateb rhwng y Prif Weinidog, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a dau Gyn-ddisgybl sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth garfan. Yn ystod y drafodaeth, buom yn siarad am y bobl hynny fu'n esiamplau pwysig i ni yn ein bywydau a sut y gwnaethant ein helpu i gael mynediad i'r gyrfaoedd y gwnaethom eu dewis. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i ateb rhai o'r cwestiynau a allai fod gan eich myfyrwyr ac yn dangos manteision cynllun Cyn-ddisgyblion i gymuned eich ysgol yn fwy eglur.

Ein huchelgais yw i fyfyrwyr ysgolion uwchradd ledled Cymru elwa o'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl a dyna pam rydym wedi sicrhau bod y Pecyn Cymorth ar gael drwy Hwb a gwefan Llywodraeth Cymru nawr.



Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg



Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Mae gan gymunedau alumni ddau gryfder amlwg: y teimlad o berthyn a chynaliadwyedd. Ar ôl cael eu magu yn yr un ardal ac efallai cael eu haddysgu gan yr un athrawon, mae cyn-fyfyrwyr yn fodelau rôl delfrydol, gan fod modd uniaethu â nhw ar unwaith. Gallant ddarparu cyngor i fyfyrwyr yn seiliedig ar eu profiadau personol a helpu i ysbrydoli pobl ifanc yng Nghymru.

## Gall alumni brofi i fyfyrwyr bod 'rhywun fel fi' yn gallu llwyddo a ffynnu.

Mae gan ysgolion uwchradd gronfa barhaol o gefnogaeth oherwydd, wrth i fyfyrwyr newydd adael yr ysgol bob blwyddyn, gallant ymuno â'r gymuned gynyddol o wirfoddolwyr alumni.

Ers sefydlu'r elusen addysg ychydig dros ddeg mlynedd yn ôl, mae Future First wedi cefnogi dros draean o ysgolion uwchradd a cholegau'r wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr, gan newid y diwylliant o ran ymgysylltiad cyn-fyfyrwyr â'r system wladwriaethol. Rydym ni'n gwneud adeiladu rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr ac ymgysylltu â nhw yn syml.

Rydym ni wedi gweld cyfranogiad alumni yn cael ei nodi fel tystiolaeth o arfer gyrfaoedd da sy'n cefnogi'r nodau a osodwyd yn y 'Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith'. Gall cyn-fyfyrwyr weithredu fel ffynhonnell wybodaeth i bobl ifanc, a'u helpu nhw i ddarganfod mwy am fyd gwaith, yn ogystal â nodi eu cryfderau personol

# Cynnwys

## TROSOLWG

Yr hyn y gall rhwydwaith alumni ei wneud ..............................Tud.6
Y gwahaniaeth y gall alumni ei wneud ..................................Tud.7

## DECHRAU O'R DECHRAU

Creu Cynllun ......................................................................Tud.8
Astudiaethau Achos ..........................................................Tud.10

## ADEILADU RHWYDWAITH

Cysylltiadau presennol ......................................................Tud.13
Diogelu data ........................................................................ Tud.14
Canllaw cofrestru ..............................................................Tud.15

## YMGYSYLLTU AG ALUMNI

Pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ....................................Tud.17
Gwneud alumni yn weladwy ................................................Tud.18

## CYNNAL GWEITHGAREDDAU

Syniadau am weithgareddau ...............................................Tud.20
Amlinelliad o sesiwn ..........................................................Tud.22
Ystyriaethau ........................................................................ Tud.24
Nodiadau briffio ..................................................................Tud.25
Gwneud y mwyaf o ddigwyddiadau ...................................Tud.27

# Trosolwg

## Yr hyn y gall rhwydwaith alumni ei wneud

**Darparu cymorth mentora a chyngor un-i-un**

**Datblygu nodweddion cymeriad, fel hyder a gwytnwch**

**Rhoi mewnwelediadau i lwybrau gyrfa a gwaith**

**Darparu mynediad at fodelau rôl perthnasol i fyfyrwyr cyfredol**

**Hybu'r strategaeth gyrfaoedd trwy helpu i gyflawni nodau'r Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith**

**Cyfoethogi'r ffordd y caiff y cwricwlwm craidd ei gyflwyno**

**Helpu i wella dyheadau a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol**

**Creu cymuned eang o wirfoddolwyr, o lywodraethwyr i siaradwyr ysbrydoledig**

# Y gwahaniaeth y gall alumni ei wneud

Mae Future First yn gwybod pa mor bwysig yw gwerthuso effaith ein gwaith. Yn seiliedig ar ein gwaith ymchwil, rydym yn gwybod bod modd rhannu cyn-fyfyrwyr i'r rolau canlynol:

## Cynghorwyr

Gall eu cyngor ymwneud â nodau gyrfa, llwybrau addysg neu hyd yn oed faterion bugeiliol.

## Gweithwyr Proffesiynol

Gall y gwirfoddolwr hwn esbonio safonau proffesiynol anysgrifenedig nad ydyn nhw ar y cwricwlwm.

## Arloeswyr

Efallai eu bod nhw wedi dilyn llwybr anarferol o gymharu â myfyrwyr eich ysgol neu ddemograffeg benodol o fyfyrwyr.

## Arbenigwyr

Efallai bydd eu sgiliau yn gweddu i faes pwnc penodol, a gallent helpu i wella'r cwricwlwm.

"Mae'n beth da bod yr holl bobl ysbrydoledig hyn yn ymweld â ni er mwyn dweud wrth y myfyrwyr am y posibiliadau sydd ar gael iddynt, ond mae cael cyfle i gwrdd â rhywun sydd wedi troedio llwybr tebyg iddynt ac sydd bellach yn llwyddo mewn bywyd ac sydd â swydd ardderchog y maen nhw'n ei charu yn llawer mwy pwerus."

**Katie,** gwirfoddolwr alumni, Ysgol Robert Clack

"Ymunais â rhwydwaith cyn-fyfyrwyr Future First yn Ysgol Robert Clack er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i'r rhaglen ysgol a chyn-fyfyrwyr a gynorthwyodd fi. Yn ogystal, sefydlais raglen fentora ar ddechrau 2019 ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 9, gan gynnwys rhai unigolion oedd ag anawsterau ymddygiad, fel fi, pan oeddwn i yn yr ysgol. Roedd cael y cyfle i'w cefnogi trwy hynny yn wych."

**Lewis,** gwirfoddolwr alumni, Ysgol Robert Clack

"Gadewais yr ysgol gyda theimlad o gyflawniad a gwên enfawr ar fy wyneb; heddiw fe wnes i annog menywod ifanc i ddefnyddio eu lleisiau pwerus er gwell."

**Aamena**, gwirfoddolwr alumni, Ysgol Sarah Bonnell

# Dechrau o'r Dechrau

## Creu Cynllun

Bydd diwylliant eich ysgol neu goleg, ynghyd ag anghenion eich myfyrwyr, yn chwarae rhan fawr wrth lunio'r blaenoriaethau ar gyfer eich rhwydwaith. Rydym yn awgrymu y dylech ddechrau'r flwyddyn academaidd trwy gynnal sesiwn cynllunio strategol i nodi'r ffocws ar gyfer adeiladu eich cymuned. Hynny yw, sefydlu'r hanfodion, er enghraifft:

## 1 Nodi aelodau staff allweddol:

Mae sicrhau ymrwymiad staff ar draws yr ysgol yn ddelfrydol, ond dylai o leiaf ddau unigolyn oruchwylio gwaith y rhwydwaith: arweinydd strategol ac arweinydd gweithredol. Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno sicrhau ymrwymiad staff sy'n dylanwadu ar eraill trwy eu harferion gwaith.

**Dylai'r arweinydd strategol fod yn:**

- Uwch arweinydd
- Aelod staff profiadol a hirsefydlog (cyn-fyfyriwr, o bosibl)
- Unigolyn sy'n gyfrifol am wella deilliannau i'r myfyrwyr sydd ei angen fwyaf

**Bydd yr arweinydd strategol yn gyfrifol am:**

- Benderfynu ar nodau ac amcanion y rhwydwaith
- Ymgorffori'r rhwydwaith fel rhan o gynllun datblygu'r ysgol
- Dod o hyd i gyfleoedd i wirfoddolwyr ar draws yr ysgol
- Adolygu cynnydd trwy gydol y flwyddyn

**Dylai'r arweinydd gweithredol fod yn:**

- Unigolyn sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y rôl neu rywun sydd â diddordeb yng nghymuned yr ysgol / coleg
- Unigolyn sy'n cael ei reoli gan yr arweinydd strategol
- Unigolyn sy'n gallu treulio awr bob pythefnos (ar gyfartaledd) yn gofalu am y rhwydwaith

**Bydd yr arweinydd gweithredol yn gyfrifol am:**

- Reoli'r rhwydwaith o ddydd i ddydd
- Dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli ar draws yr ysgol / coleg
- Hyrwyddo'r rhwydwaith yn yr ysgol, y gymuned ac ar-lein
- Sicrhau ymrwymiad disgyblion Blwyddyn 11 ac 13 sy'n gadael yr ysgol / coleg

# 2 Creu blaenoriaethau strategol a llwyddiant ar gyfer y flwyddyn:

Wrth greu strategaeth ar gyfer y flwyddyn, credwn ei bod yn syniad da i ddechrau gyda'r cynllun ysgol blynyddol a nodi unrhyw ddigwyddiadau y mae eich ysgol yn bwriadu eu cynnal. Awgrymwn eich bod chi naill ai yn archwilio sut i ychwanegu gwerth at y gweithgareddau hyn trwy ddefnyddio cyn-fyfyrwyr, neu ddeall lle y gallech greu ymyriadau ystyrlon trwy gydol y flwyddyn na fydd yn amharu ar weithgareddau eraill yr ysgol.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys nifer o syniadau yn yr adran 'Ymgysylltu â Chyn-fyfyrwyr'. Bydd yr adran hon yn eich helpu chi i nodi cyn-fyfyrwyr penodol ar gyfer digwyddiadau, er mwyn dechrau sefydlu eich rhwydwaith alumni.

# 3 Codi ymwybyddiaeth staff ar draws yr ysgol / coleg:

Trwy sicrhau bod staff ar draws yr ysgol neu'r coleg yn ymgysylltu â'r rhwydwaith, bydd eich gwaith caled yn ennill momentwm ac, o ganlyniad, byddwch yn cael mwy o effaith ar ddeilliannau eich myfyrwyr. Yn aml, bydd sicrhau ymwybyddiaeth ymysg holl aelodau staff yr ysgol / coleg o'r bwriad i adeiladu cymuned cyn-fyfyrwyr yn helpu i ledaenu'r neges a sicrhau cymorth o ran recriwtio gwirfoddolwyr gwych.

Mae pob sefydliad yn wahanol, felly awgrymwn eich bod yn dod o hyd i'r ffordd orau o weithio i chi. Fodd bynnag, dyma rai ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ar draws yr ysgol neu'r coleg:

## Amlygrwydd yn yr ysgol ac ar-lein:

- Crëwch 'arddangosfa alumni' yn y cyntedd er mwyn hyrwyddo gwerth dathlu gwahanol lwybrau cyn-fyfyrwyr yr ysgol / coleg.
- Hyrwyddwch y gwaith da rydych chi'n ei wneud ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eich ysgol / coleg.
- Treuliwch amser yn ystod sesiynau hyfforddi staff i siarad am adeiladu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr a gofynnwch i gydweithwyr pa feysydd o'r cwricwlwm yr hoffent eu cyd-addysgu, gyda chymorth gwirfoddolwr alumni.

## Defnyddio lleisiau dylanwadol:

- Gweithiwch gydag aelod staff dylanwadol i'w helpu nhw i drefnu digwyddiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.
- Os rydych yn cynnal digwyddiad, casglwch dystiolaeth i brofi'r effaith a gafodd y digwyddiad ar eraill (gwaith a gwblhawyd, dyfyniadau, ffotograffau neu arolygon).

# Astudiaethau Achos

Fel rhan o waith Future First ar draws Cymru, rydym wedi cydweithio â llu o ysgolion a cholegau gwych i'w cefnogi nhw wrth adeiladu rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr parhaol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnal gan ysgolion a cholegau ledled Cymru.

## Coleg y Cymoedd

- Sgwrs: 'Sut brofiad yw astudio ym Mhrifysgol Rhydychen'
- Mynediad at y Gwyddorau Cymdeithasol yn Addysg Uwch – sgwrs am y daith o gwrs mynediad i astudio am ddoethuriaeth
- Tudalen alumni ar wefan y coleg, yn hyrwyddo'r amrywiaeth o swyddi y mae cyn-fyfyrwyr yn eu gwneud

## Ysgol Lewis Pengam

- Gwasanaeth - 'Bywyd person ifanc LGBTQ+'
- Sesiynau mentora dros Skype
- Sgwrs am yrfaoedd yn y lluoedd arfog
- Sgwrs am yrfa fel peilot - 'Tangyflawnwr i yrfa lwyddiannus'
- Cynigir prentisiaethau i gyn-fyfyrwyr
- Sgwrs gan gyfarwyddwr theatr – 'Sut y sefydlais gwmni theatr fy hun'

## Ysgol Gyfun Lewis i Ferched

- Cymorth gyda mathemateg fel rhan o'r cwricwlwm
- Sgyrsiau amser cinio gan gyn-fyfyrwyr
- Sesiynau holi ac ateb yn ystod wythnos gyrfaoedd
- Sesiwn cyngor Dylunio Graffig

> "Yng Ngholeg y Cymoedd, rydym yn gweithio gyda'n cyn-fyfyrwyr oherwydd eu bod yn ysbrydoli ein dysgwyr cyfredol ac mae'n helpu i hysbysu dysgwyr am y gwahanol gyfleoedd gyrfaol sydd ar gael ac o'r llwybrau y mae pobl eraill wedi'u dilyn. Yn ogystal, rydym yn gofyn i gyn-fyfyrwyr ddarparu lleoliadau gwaith ac i fod yn siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau fod yn siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau."
>
> **Ann Crimmings,** Swyddog Marchnata, Coleg y Cymoedd.



## Alumni ar Waith:

Gall cyn-fyfyrwyr o ystod o ddiwydiannau greu carwsél gyrfaoedd effeithiol neu weithgareddau rhwydweithio cyflym, ar-lein neu'n bersonol.

# Adeiladu Rhwydwaith

## Cysylltiadau Presennol

Cam cyntaf gwych yw estyn allan at bob myfyriwr blwyddyn olaf fel y gallant gofrestru a chadw mewn cysylltiad ar ôl iddynt adael yr ysgol / coleg. Gall grwpiau eraill sydd â chysylltiadau â'ch ysgol eich helpu i dyfu eich rhwydwaith:

### Cyn-fyfyrwyr:

- Anfonwch neges e-bost neu neges destun at bob cyn-fyfyriwr
- Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chefnogwyr
- Sicrhewch fod gennych bresenoldeb amlwg ar wefan yr ysgol, er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i bobl ddod o hyd i'r rhwydwaith
- Gofynnwch i fyfyrwyr sy'n astudio'r cyfryngau i gynhyrchu fideo er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith, e.e. BHASVIC

### Staff Presennol a Chyn-aelodau Staff:

- Ar ôl i chi greu ffurflen gofrestru alumni ddigidol, ychwanegwch hi at eich llofnod e-bost
- Anfonwch neges e-bost at bob aelod staff yn gofyn iddynt rannu eich ffurflen gofrestru
- Anfonwch ddiweddariad bob tymor at holl aelodau'r staff
- Anogwch aelodau staff i godi ymwybyddiaeth

### Rhieni a Brodyr neu Chwiorydd:

- Hyrwyddwch y rhwydwaith trwy neges e-bost, lythyr neu neges destun
- Rhannwch daflen wybodaeth yn y dderbynfa
- Trefnwch i gwrdd â chadeirydd y Gymdeithas
- Rhieni ac Athrawon i drafod y rhwydwaith a'i manteision
- Trefnwch fod bwrdd cofrestru gyda gliniaduron neu ffurflenni ar gael mewn digwyddiadau
- Arddangoswch bosteri o gyn-fyfyrwyr mewn nosweithiau rhieni
  Nodwch yr holl wybodaeth cofrestru yn rhaglen sioe'r ysgol / coleg

### Sefydliadau Lleol:

- Arddangoswch bosteri a thaflenni gwybodaeth mewn caffis, addoldai a neuaddau lleol
- Cysylltwch â cholegau a phrifysgolion lleol er mwyn denu cyn-fyfyrwyr
- Rhannwch wybodaeth cofrestru gyda chynghorau lleol: maen nhw'n gyflogwyr mawr ac mae'n bosibl y bydd gan gynghorwyr lleol gysylltiadau â'ch cefnogwyr

### Llywodraethwyr:

- Hyrwyddwch gynnydd diweddaraf y rhwydwaith mewn cyfarfodydd llywodraethwyr yn rheolaidd
- Gofynnwch i'r llywodraethwyr estyn allan at eu cysylltiadau personol

Gall presenoldeb ar-lein cryf adrodd stori am gymeriad eich cymuned a'i gwneud hi'n hawdd i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ei gweld. Mae tudalen gefnogwyr ar eich gwefan yn ffordd effeithiol o ddweud wrth bobl am y gwaith rydych chi'n ei wneud gyda'ch cymuned o gefnogwyr a'r manteision o ymuno, ochr yn ochr ag estyn allan trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Facebook ac Instagram.

Rydym ni wedi darparu templedi i chi eu haddasu a'u defnyddio ar-lein:

## 1 Templed gwefan a chylchlythyr:

**YN GALW AR BOB CYN-FYFYRIWR**

Os ydych chi'n gyn-fyfyriwr o'r ysgol hon / coleg hwn, rydym ni eisiau clywed gennych chi!

Gallai eich profiadau ers gadael yr ysgol / coleg helpu i ysgogi ac ysbrydoli ein myfyrwyr presennol i deimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Byddem wrth ein bodd petaech yn ymuno â'n rhwydwaith cyn-fyfyrwyr a chadw mewn cysylltiad â'r ysgol.

Gallwch ddewis sut a phryd rydych chi'n helpu - efallai y gallwch chi weithredu fel model rôl gyrfa ac addysg, darparu profiad gwaith, gweithredu fel mentor (yn bersonol neu ar-lein), neu helpu gyda rhoddion, codi arian neu hyd yn oed wneud cais i fod yn llywodraethwr.

Ychwanegwch y rheswm pam y dewisodd eich ysgol / coleg adeiladu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr.

Nid oes ots pryd y gwnaethoch chi ein gadael, p'un a ydych chi mewn addysg bellach neu gyflogaeth, p'un a ydych chi'n dal i fyw gerllaw neu wedi symud ymhellach i ffwrdd, mae yna ffyrdd y gallwch chi helpu o hyd.

Cliciwch y ddolen hon er mwyn cofrestru a llenwi'r ffurflen ar-lein – ni fydd yr holl broses yn cymryd mwy na dwy funud. Rhowch ddolen i ffurflen i ymuno ag alumni neu nodwch fanylion cyswllt.

Mae croeso i chi ychwanegu ffotograffau (e.e. hen grwpiau tiwtor) er mwyn gwneud y cais yn fwy atyniadol.

## 2 Templedi cyfryngau cymdeithasol:

**Twitter:**

- [Defnyddiwch ffotograff o'r ysgol / cyn-fyfyrwyr] Ydych chi'n cofio'r lle hwn? Ymunwch â'n rhwydwaith cyn-fyfyrwyr er mwyn ailgysylltu! Dolen gofrestru fan hyn
- Beth fyddech chi'n dweud wrth eich hunan yn 16 oed? Cyn-fyfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol i ysbrydoli myfyrwyr presennol! Dolen gofrestru fan hyn

**Facebook:**

- Gall cyn-fyfyrwyr roi hwb i hyder, cymhelliad a sgiliau pobl ifanc – os mynychoch chi [ysgol / coleg], ysbrydolwch y genhedlaeth nesaf trwy gofrestru ar gyfer ein rhwydwaith cyn-fyfyrwyr. Dolen gofrestru fan hyn
- Hoffech chi wneud gwahaniaeth i fywydau myfyrwyr [ysgol / coleg]? Cofrestrwch ar gyfer ein rhwydwaith cyn-fyfyrwyr er mwyn helpu i godi dyheadau'r myfyrwyr sy'n eistedd yn eich hen ddosbarth heddiw: Dolen gofrestru fan hyn

# Diogelu Data

Os ydych yn dymuno cadw manylion cyswllt at ddibenion cysylltu â chyn-fyfyrwyr, byddwch yn casglu, storio a defnyddio eu gwybodaeth bersonol ac felly mae deddfwriaeth Diogelu Data yn berthnasol. Yn Future First rydym wedi datblygu technoleg bwrpasol i reoli cysylltiadau cyn-fyfyrwyr a sicrhau cyfarfyddiadau digonol ac ystyrlon ar gyfer carfannau targed.

Un o'r ffyrdd hawsaf o gasglu'r wybodaeth sydd ei angen arnoch yw trwy ffurflen, oherwydd y gallwch safoni'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani. Dylech gasglu a storio'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn unig - dim mwy, dim llai.



## Hysbysiad Prosesu Teg / Hysbysiad Preifatrwydd

Wrth gasglu'r wybodaeth dylech ei gwneud yn glir pam rydych chi ei heisiau, gan ddefnyddio Hysbysiad Prosesu Teg / Hysbysiad Preifatrwydd.

Dylai'r hysbysiad ddatgan:

- Pwy ydych chi
- Y rheswm bod angen yr wybodaeth arnoch chi a'r sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth
- Gyda phwy fyddwch chi'n rhannu'r wybodaeth
- Manylion cyswllt yr ysgol
- Manylion yr hawliau sydd ganddynt, e.e. yr hawl i ofyn i chi stopio defnyddio'u manylion neu'r hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Gall yr hysbysiad fod ar gael mewn nifer o ffyrdd, e.e. ar y cyd ag unrhyw ffurflenni sydd gennych a / neu trwy ychwanegu dolen at eich gwefan a darparu dolen

## Cysylltu

Mae'n demtasiwn chwilio am gyn-ddisgyblion ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu â nhw. Fodd bynnag, ni allwch sicrhau eich bod yn cysylltu â'r person cywir (mae rhai pobl yn rhannu cyfrifon, yn defnyddio enwau gwahanol neu efallai bod gan berson arall fynediad i'r cyfrif o dan sylw) ac nid ydynt wedi cytuno i chi gysylltu â nhw fel hyn ac efallai y byddant yn ystyried eich ymdrechion fel niwsans. Mae defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol mewn ffordd lai uniongyrchol, e.e. trwy dudalen Facebook Cyn-fyfyrwyr neu drwy broffil LinkedIn y gall disgyblion / myfyrwyr ddewis ymuno ag ef neu ei ddilyn, yn fwy effeithiol. Yn ogystal, gellir defnyddio'r ffurflen alumni i gasglu dewisiadau cysylltu cyn-fyfyrwyr, gan gynnwys blychau ticio er mwyn optio i mewn i ddefnyddio pob math o ddull cyfathrebu posibl.

# Canllaw i'r ffurflen gofrestru:

## Cofiwch

Yn debyg i'r holl wybodaeth bersonol rydych chi'n ei chasglu, ei storio a'i defnyddio, dylech sicrhau bod y wybodaeth bob amser yn cael ei chadw'n ddiogel a dim ond cyhyd ag y bo angen. Dylid cysylltu â'r cyn-fyfyrwyr yn rheolaidd i sicrhau bod eu manylion yn gyfredol a'u bod yn dal yn hapus i chi gysylltu â nhw.

Dylid storio unrhyw wybodaeth am gefnogwyr yn ddiogel. Trwy storio manylion eich cefnogwyr mewn ffeil agored ar rwydwaith yr ysgol, ar eich ffôn neu eu nodi ar ddarn o bapur, byddwch mewn perygl o fynd yn groes i reoliadau GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, sy'n gwneud y data yn anniogel ac sy'n gallu arwain at ddirwyon mawr. Y dulliau mwyaf diogel o storio'r wybodaeth hon ac o olrhain data eich alumni yw mewn taenlen a ddiogelir gan gyfrinair neu ar gronfa ddata warchodedig.

**Pethau i'w hystyried wrth greu ffurflen gofrestru cyn-fyfyrwyr:**

1. Teitl ac Enw
2. Rhywedd
3. Cyfeiriad e-bost
4. Rhif ffôn
5. Blwyddyn Gadael Ysgol
6. Statws presennol: (hynny yw, Mewn Gwaith, Mewn Addysg, Arall)
7. Teitl Swydd / Manylion Addysg
8. Addysg a Chymwysterau (os yn berthnasol)
9. Prosiectau a Gweithgareddau Alumni [lluniwch restr o weithgareddau rydych yn bwriadu eu cynnal a gofynnwch am ddewisiadau'r cyn-fyfyriwr / cyn-fyfyrwyr]
10. Dewisiadau cysylltu [hynny yw, e-bost, galwad ffôn, neges destun]
11. Llofnod
12. Dyddiad

Dylech gynnwys hysbysiad prosesu / preifatrwydd teg, un ai fel rhan o'r ffurflen gofrestru (ar waelod neu ar frig y ffurflen), neu gallwch gynnwys y wybodaeth hon ar eich gwefan, ynghyd â dolen at y wybodaeth.



# Ymgysylltu ag Alumni

## Y Pwysigrwydd

Mae'r profiadau mwyaf gwerth chweil yn digwydd pan fydd sgiliau eich cefnogwyr yn cyd-fynd yn dda ag anghenion eich myfyrwyr a'r ysgol neu'r coleg. Gall hyn arwain at brofiad sydd o fudd i'r ddwy ochr - y myfyrwyr, a fydd yn dysgu gan gyn-fyfyrwyr; a'r gwirfoddolwyr eu hunain, a fydd yn gallu rhannu eu harbenigedd mewn ffordd ystyrlon. Yn Future First, rydym yn lleddfu'r pwysau gweithredol ar staff trwy sicrhau bod cysylltiadau a rheolaeth cyn-fyfyrwyr yn syml.

Dyma rai syniadau ar sut i ennyn diddordeb cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr eraill ym mywyd yr ysgol, ac adeiladu ymdeimlad o gymuned. Mae hwn yn gam pwysig wrth adeiladu perthynas wych â'ch cymuned wirfoddol, a gall helpu'r ysgol / coleg i ddeall sut mae cyn-fyfyrwyr eisiau ymgysylltu â gweithgareddau ysgol.

### CYFLYM A SYML

- Dosbarthwch gopi o gylchlythyr neu bapur newyddion yr ysgol er mwyn sicrhau bod cefnogwyr yn derbyn y newyddion diweddaraf
- Gwahoddwch y cefnogwyr i sioeau'r ysgol, cyngherddau a diwrnodau agored
- Hysbyswch gyn-fyfyrwyr o unrhyw aelodau staff sy'n ymddeol, a gofynnwch iddynt rannu unrhyw atgofion sydd ganddynt
- Anfonwch grynodeb diwedd blwyddyn at eich cefnogwyr a diolchwch iddynt am eu cefnogaeth

### YMDRECH YCHWANEGOLL

- Rhannwch wybodaeth gyda'ch cefnogwyr o ran y ffordd rydych yn bwriadu defnyddio'u cymorth dros y flwyddyn i ddod
- Gadewch i gyn-fyfyrwyr anfon newyddion atoch i'w gynnwys yn y cylchlythyr
- Gwahoddwch gefnogwyr i fore coffi a thaith o'r ysgol, neu am baned rithiol gyda'r Pennaeth
- Rhannwch straeon o ddigwyddiadau neu weithgareddau eraill y mae cefnogwyr wedi cymryd rhan ynddynt er mwyn dathlu eu llwyddiant ac i annog eraill i wneud yr un peth yn y dyfodol

# Gwneud Alumni yn Weladwy

Mae sicrhau bod cyn-fyfyrwyr yn weladwy o amgylch yr ysgol neu'r coleg nid yn unig yn ffordd hyfryd o ysbrydoli myfyrwyr cyfredol o bob oed, ond gall annog ymadawyr i ymuno â'r rhwydwaith cyn-fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf. Rydym yn annog pob ysgol / coleg i sicrhau bod cyn-fyfyrwyr yn weladwy mewn ardaloedd prysur, megis cynteddau, caffeterias ac o fewn gwersi neu gymorth. Gwyliwch y fideo hwn gan Ysgol Homewood sy'n rhoi sylw i adnodd digidol i gyn-fyfyrwyr.

Mae'r canlynol yn awgrymiadau ar gyfer casglu cefnogaeth y gellir ei defnyddio'n strategol i gynyddu gwelededd cyn-fyfyrwyr yn yr ysgol:

- Casglwch y cyngor gorau, dyfyniadau neu atgofion i'w harddangos mewn dosbarth
- Trefnwch sesiwn rithiol gydag alumni yn ystod gwasanaeth
- Gofynnwch am help i adolygu ceisiadau, datganiadau personol a CVs
- Ewch â myfyriwr / myfyrwyr ac oedolyn i fynd gyda ef/nhw ar daith o amgylch prifysgol neu weithle
- Gwnewch gais am fideo: yn cynnig cyngor, yn ateb cwestiynau neu'n hyrwyddo 'diwrnod mewn bywyd...'

Os ydych chi'n mynd i ddefnyddio ffotograff o rywun mewn unrhyw beth rydych chi'n ei gyhoeddi (ar bapur neu ar-lein), cofiwch ofyn iddyn nhw lofnodi ffurflen gydsynio fel y gallwch chi ddefnyddio eu delwedd. Dyma dempled ar gyfer gofyn am gydsyniad:

**Cydsyniad i ddefnyddio delwedd**

Diolch am gytuno i roi caniatâd i ni ddefnyddio'ch delwedd. Llofnodwch y ffurflen isod er mwyn rhoi cydsyniad:

Rydw i, (llofnodwch a phrintiwch eich enw)..................................................................................
yn rhoi caniatâd i <Ysgol / Coleg> ddefnyddio fy nelwedd (boed ar ffurf ffotograff neu fideo) at ddiben cyhoeddusrwydd a gwaith hyrwyddo cysylltiedig â rhaglen ddigwyddiadau'r <Ysgol / Coleg> ac at ddiben hyrwyddo budd cyhoeddus gwaith yr <Ysgol / Coleg>.

Dyddiad ...........................................................................

Os dymunwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â <Enw Cyswllt> yn <Ysgol / Coleg> ar <cyfeiriad e-bost>.

Byddwn yn stopio defnyddio'ch delwedd o'r dyddiad uchod. Fodd bynnag, ni allwn dynnu neu ddileu copïau o'ch delwedd sydd eisoes yn bodoli, boed ar bapur neu ar-lein.

Gallech ddechrau eich wal llwyddiant cyn-fyfyrwyr eich hun trwy ofyn i gyn-fyfyrwyr gyflwyno ffotograffau. Yn Future First, mae ein harbenigwyr yn cynhyrchu posteri ysbrydoledig gwych sydd wir yn dod â rolau cyn-fyfyrwyr yn fyw.






# Cynnal Gweithgareddau

## Syniadau am Weithgareddau

Byddwch yn gweld gwerth gwirioneddol adeiladu cymuned cyn-fyfyrwyr pan fyddwch chi'n dechrau cynnal gweithgareddau effeithiol gyda dysgwyr. Mae'r awgrymiadau canlynol yn weithgareddau rydym ni wedi'u datblygu i gyn-fyfyrwyr allu ymgysylltu â myfyrwyr cyfredol. Mae'r sesiynau hyn yn cyd-fynd yn dda iawn gyda'r sgiliau rheoli gyrfa canlynol, o'r Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith:

**Cymhelliad** Gall cyn-fyfyrwyr weithredu fel mentoriaid, naill ai ar-lein neu'n bersonol, gan ddarparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i fyfyrwyr. Caiff y mentora ei deilwra i'r unigolyn, gyda nodau penodol mewn golwg, gan gynnig perthynas newydd bwrpasol a fydd yn helpu myfyrwyr i oresgyn ystod o heriau.

**Hunanymwybyddiaeth** Rydym ni wedi datblygu adnodd rhad ac am ddim ar gyfer **Sgiliau a Chryfderau** sy'n galluogi pobl ifanc i nodi'r sgiliau sy'n cael eu harddangos gan y cyn-fyfyriwr yn ei fywyd gwaith, ac i'w hannog nhw i fyfyrio ar eu sgiliau a'u cryfderau personol.

**Cymhwysiad** Mae gwahodd cyn-fyfyrwyr i ddychwelyd i'r ysgol / coleg er mwyn cynorthwyo gyda gwersi cwricwlwm yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y myfyrwyr o gymhwyso eu dysgu yn y byd go iawn ac yn rhoi hwb i'w cymhelliant. Gall cyn-fyfyrwyr chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r cwricwlwm craidd. Gall cyn-fyfyrwyr gyfoethogi'r cwricwlwm trwy gyd-gyflwyno gwersi sy'n gysylltiedig â'u gyrfaoedd, neu ymgysylltu â'r dosbarth trwy alwadau fideo i helpu i godi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o fyd gwaith.

**Bod yn ymwybodol o gyfleoedd** Rydym ni wedi cael llwyddiant mawr o ran gwahodd cyn-fyfyrwyr i siarad gyda grwpiau blwyddyn yn yr ysgol, e.e. yn ystod gwasanaethau. Gallwch wneud hynny trwy gysylltu â'ch rhwydwaith cyn-fyfyrwyr a gofyn i unrhyw wirfoddolwyr i greu cyflwyniad PowerPoint - er mwyn hyrwyddo cyfleoedd lleol. Yn ogystal, gallech ddefnyddio'r **pecyn gweithgaredd** canlynol, a grëwyd ar gyfer Wythnos Gwirfoddoli - er mwyn dangos i fyfyrwyr y cyfleoedd sydd ar gael trwy wirfoddoli gyda chyn-fyfyriwr.

**Gwneud penderfyniadau** Gall cyn-fyfyrwyr ddarparu cyfleoedd cysgodi a lleoliadau gwaith, gan helpu myfyrwyr i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o amgylcheddau gwaith, ond hefyd i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo pan gyrhaeddant. Gall hyd yn oed darparu gweithgareddau sy'n rhoi mewnwelediad i waith trwy e-bost i fyfyrwyr eu cwblhau roi blas go iawn ar y gwaith a rhoi hwb i hyder eich myfyrwyr o ran eu penderfyniadau cysylltiedig â gyrfaoedd.

**Gwytnwch** Yn Future First, credwn y gellir gwella datblygiad sgiliau bywyd trwy ddangos enghreifftiau cadarnhaol a modelau rôl i fyfyrwyr. Yn ddiweddar, rydym wedi creu fideos o gyn-fyfyrwyr ledled y DU yn ateb cwestiynau am '**Gymhwyso Hyblygrwydd, Dyfalbarhad a Datrys Problemau**'. Fe allech chi ofyn y cwestiynau hyn i'ch rhwydwaith cyn-fyfyrwyr a gweld beth maen nhw'n ei ddisgrifio mewn ymatebion fideo i'w rhannu â'ch myfyrwyr cyfredol.




Cynhaliodd Ysgol Uwchradd Castell Alun weithdai gyda chyn-fyfyrwyr mewn partneriaeth â Future First, gan helpu eu myfyrwyr Blwyddyn 9 i feddwl am eu hopsiynau ar ôl TGAU.

# Cynllun Sesiwn Enghreifftiol:

Dyma enghraifft o gynllun sesiwn a gafodd ei greu ar gyfer sesiwn cymorth yn y cwricwlwm a gynhaliwyd gan ysgol yn y DU:

| Ffocws: | Gwirfoddoli yn y cwricwlwm | Mathemateg | Cymarebau a chyfrannau |
|---|---|---|---|

## Pam mae cymarebau a chyfrannau yn bwysig yn y diwydiant arlwyo?

**Crynodeb o'r Sesiwn**
Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar gyfrannau uniongyrchol a sut y cânt eu defnyddio i addasu ryseitiau yn y diwydiant arlwyo. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael cyfle i ddysgu am y busnes arlwyo. Gall y sesiwn hon gysylltu â defnyddio cyfrannau uniongyrchol i gymharu cynhyrchion a gwerthuso'r cynnyrch gorau sydd ar y farchnad. Mae'r sesiwn hon wedi'i chynllunio i bara awr.

**Grŵp Targed Myfyrwyr**
- CA3 (gellir addasu'r sesiwn ar gyfer disgyblion CA2 neu CA4)

**Amcanion Dysgu**
- Deall rôl cyfrannau uniongyrchol yn y diwydiant arlwyo
- Gallu defnyddio cyfrannau uniongyrchol er mwyn addasu ryseitiau
- Gallu defnyddio cymarebau unedol er mwyn cymharu prisiau cynnyrch

**Deilliannau Dysgu**
- Bydd myfyrwyr yn defnyddio lluosyddion syml i addasu ryseitiau
- Efallai bydd myfyrwyr yn gallu addasu ryseitiau trwy ddefnyddio lluosyddion mwy cymhleth
- Efallai bydd myfyrwyr yn gallu addasu ryseitiau a chymharu'r prisiau gorau am gynhwysion

**Gwirfoddolwyr a Awgrymir**
- Rhywun sy'n gweithio yn y diwydiant arlwyo

**Adnoddau**
- Cyflwyniad, nodiadau briffio, nodiadau post-it a ryseitiau i'w haddasu.

**Paratoadau o Flaen Llaw**
- Dylai myfyrwyr feddu ar ddealltwriaeth dda o gymarebau a chyfrannau - ysgrifennu cymarebau, symleiddio cyfrannau a rhannu cymarebau.
- Siaradwch gyda'r gwirfoddolwr dros y ffôn er mwyn esbonio'i rôl yn y sesiwn, ynghyd â beth i'w ddisgwyl o'r sesiwn.

| Amseru | Cynnwys y Rhan | Amcanion allweddol a chysylltu â'r rhan nesaf |
|---|---|---|
| 0 5 | **Cwrdd â'r Gwirfoddolwr (sleidiau 1-5)**<br>• Cyflwynwch y sesiwn trwy esbonio sut bydd y sesiwn yn helpu myfyrwyr i ddeall sut caiff cyfrannau uniongyrchol eu defnyddio yn y diwydiant arlwyo.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr ofyn cwestiynau i'r gwirfoddolwr er mwyn dysgu am ei arferion dyddiol. Gall y gwirfoddolwr wneud cysylltiad rhwng ei ateb a chyfrannau uniongyrchol. | **Amcan:** cwrdd â'r gwirfoddolwr achlywed am ei lwybr i mewn i'r diwydiant arlwyo.<br>**Cyswllt:** 'Rydym ni'n ffodus iawn i gael gwirfoddolwr o'r diwydiant arlwyo a fydd yn gweithio gyda ni heddiw i ddeall sut caiff cymarebau eu defnyddio yn y byd go iawn.' |
| 5 20 | **Cyflwyno cyfrannau uniongyrchol (sleidiau 6-8)** | **Amcan:** Esbonio'r cysyniad o gyfrannau uniongyrchol yn. |

@futurefirstorg www.facebook.com/futurefirstorg | www.futurefirst.org.uk

Roedd y wers yn seiliedig ar wahodd cyn-fyfyriwr, sy'n gweithio fel cogydd, i gynorthwyo mewn gwers fathemateg. Mae'r enghraifft hon yn dangos i chi'r ystyriaethau a'r cynllunio sy'n mynd i mewn i greu sesiwn - gallwch ddefnyddio'r enghraifft hon i greu eich digwyddiad eich hun.

Future First

| | | |
|---|---|---|
| | - Rhoddir rysáit ar gyfer bisgedi i bob myfyriwr. Gofynnwch iddyn nhw beth fydden nhw'n ei wneud i ddyblu'r rysáit, treblu'r ryseitiau a phrofwch eu dealltwriaeth o luosyddion syml.<br>- Esboniwch fod pob un o'r ryseitiau hyn yn gymesur â'i gilydd.<br>- Gyda chymorth y gwirfoddolwr, helpwch y myfyrwyr i ddefnyddio cyfrannau uniongyrchol i addasu rysáit, e.e. os oes ganddynt rysáit ar gyfer 12 bisgïen, sut byddent yn ei addasu er mwyn gwneud 40, 70 neu 5 bisgïen?<br>- Gofynnwch i'r gwirfoddolwr roi enghraifft o gael ei gyfyngu gan gynhwysion, e.e. sawl bisgïen y gallai'r gwirfoddolwr ei wneud petai ganddo 100g o siocled yn unig?<br>- Gall y myfyrwyr ddewis rhwng 24, 30 neu 82 bisgïen, yn ddibynnol ar eu hyder. | ei ffurf symlaf. Bydd hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r deilliant dysgu cyntaf.<br><br>Deall sut i ddefnyddio cymarebau i addasu ryseitiau gyda dulliau mwy cymhleth.<br><br>**Cyswllt:** 'Nawr, rydym ni'n mynd i edrych ar y ffordd caiff y sgil hwn ei ddefnyddio yn y diwydiant arlwyo.' |
| **20 35** | **Addasu ryseitiau (sleid 9)**<br>- Gofynnwch i'r gwirfoddolwr gyflwyno pedwar o'u ryseitiau mwyaf cyffredin. Gofynnwch i'r gwirfoddolwr arwain trafodaeth ar amcangyfrif faint o gynhwysion y bydd angen eu prynu ar ddechrau'r wythnos, e.e. pe bai'n aeaf, beth fyddai'r rysáit mwyaf poblogaidd? Gofynnwch i'r gwirfoddolwr ddefnyddio ei brofiad personol i hwyluso'r drafodaeth.<br>- Gofynnwch i'r myfyrwyr addasu'r ryseitiau gan ddefnyddio eu hamcangyfrifon eu hunain neu amcangyfrifon y dosbarth. | **Amcan:** Deall rôl amcangyfrif rhesymegol yn y broses archebu – mae'n bosibl cysylltu'n ôl â thrafodaeth gynharach am deitl swydd.<br><br>**Cyswllt:** 'Nawr, rydym ni'n mynd i edrych ar sut i ddefnyddio cyfrannau i sicrhau'r fargen orau.' |
| **35 50** | **Cymharu prisiau cynnyrch (sleid 10)**<br>- Arweiniwch drafodaeth ar ddefnyddio cyfrannau i gymharu bargeinion, e.e. 3 am bris 2, pecyn 9 am £.... o gymharu â phecyn 4 am £....<br>- Y myfyrwyr i weithio mewn grwpiau. Mae pob grŵp yn derbyn ystod o fargeinion ar gyfer cynhwysion ryseitiau blaenorol. Y myfyrwyr i weithredu fel manwerthwyr er mwyn cyflwyno'r fargen orau i'r gwirfoddolwr. | **Amcan:** Estyn gwybodaeth y myfyrwyr am gyfrannau uniongyrchol wrth gymharu cynnyrch.<br><br>**Cyswllt:** 'Nawr, mae gennym un cyfle olaf i glywed gan y gwirfoddolwr ac i ystyried yr hyn rydym wedi ei ddysgu heddiw.' |
| **50 60** | **Ystyried (sleidiau 11-12)**<br>- Gofynnwch i'r gwirfoddolwr os oes ganddo unrhyw gyngor i'r myfyrwyr.<br>- Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maen nhw wedi ei ddysgu o'r sesiwn, gan gysylltu'n ôl â'r amcanion. | **Amcan:** Asesu beth mae'r myfyrwyr wedi ei ddysgu o'r sesiwn. |

**Sylwadau ac Addasiadau**

Gellid addasu'r wers hon i weddu i ystod o alluoedd – yr unig beth sydd angen ei wneud yw addasu'r lluosyddion trwy newid maint y cynhwysion.

Gellid gwneud y wers hon yn fwy deniadol (yn enwedig ar gyfer CA2) trwy ddefnyddio cynhwysion gwirioneddol a chreu cynnyrch bwyd. Byddai hyn yn gofyn am gynllunio o flaen llaw a phrynu cynhwysion.

# Ystyriaethau

Yn Future First rydym yn sicrhau bod cyn-fyfyrwyr yn cael eu briffio a'u cefnogi'n briodol i gynyddu eu gwerth i fyfyrwyr. Pan fyddwch yn cyflwyno gweithgaredd, mae yna lawer o bethau i'w hystyried, e.e. anghenion y myfyrwyr, argaeledd cyn-fyfyrwyr, a chynllunio logistaidd. Awgrymwn eich bod yn dilyn y camau hyn yn y drefn ganlynol, er mwyn sicrhau bod eich cynlluniau yn rhedeg yn esmwyth a rhoi amser i chi recriwtio'r gwirfoddolwyr cywir ar gyfer eich digwyddiad.

## 8 wythnos cyn y digwyddiad

Nodwch eich **amcanion** a dechreuwch gysylltu â'ch cymuned alumni.

## 5 wythnos cyn y digwyddiad

**Cynlluniwch** eich sesiwn gan feddwl am eich amcanion allweddol a'r hyn sydd ei angen arnoch gan gyn-fyfyrwyr.

## 2 wythnos cyn y digwyddiad

**Anfonwch** nodiadau briffio at eich gwirfoddolwyr a chynigiwch alwad ffôn i ateb unrhyw gwestiynau.

## 1 wythnos cyn y digwyddiad

Gwiriwch eich **logisteg** (e.e. adnoddau wedi'u hargraffu, lluniaeth). Anfonwch neges destun i atgoffa'r gwirfoddolwr ar y diwrnod cyn y digwyddiad.

## Ar ddiwrnod y digwyddiad

Cyflwynwch ddigwyddiad / sesiwn ardderchog! Gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod **ystyriaethau diogelu** gyda gwirfoddolwyr.

## Ar ôl y sesiwn

Anfonwch **neges e-bost yn diolch** i'r gwirfoddolwr. Gwerthuswch y sesiwn, hyrwyddwch y sesiwn ar Twitter.

Mae'n bwysig cynnwys gwybodaeth ddiogelu wrth friffio gwirfoddolwyr. Mae hyn yn caniatáu i chi sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn deall nad ydyn nhw byth i gael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda myfyrwyr a'u bod nhw'n deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw yn amgylchedd yr ysgol.

Future First

# Gwahoddiad i siarad gyda myfyrwyr yn [enw'r ysgol / coleg]

**Rydym ni'n chwilio am gyn-fyfyrwyr o [ysgol/coleg]. Hoffem petaech yn ymweld â ni er mwyn siarad am eich gwaith a'r sgiliau sydd gennych.**

**Dyddiad ac amser y digwyddiad**

**Ewch i'r dderbynfa a gofynnwch am:**

**Cyfeiriad yr ysgol:**

**Arweinwyr y sesiwn:**

**Manylion cyswllt:**

**Trosolwg**

Ar ddechrau pob gwers bydd myfyrwyr yn gofyn cwestiynau i chi. Gall hyn ymwneud â sut beth oedd bywyd yn yr ysgol neu gallai ymwneud â'r hyn rydych chi'n ei wneud yn awr.

Yna bydd y myfyrwyr yn cwblhau gweithgareddau i'w helpu nhw i baratoi ar gyfer gadael yr ysgol. Byddai'n wych petaech chi'n gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau!

**Cyngor Gorau**

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn meddwl am y canlynol er mwyn paratoi atebion:

- Esbonio eich swydd heb ddefnyddio jargon
- Cyflwyno'r cwmni rydych chi'n gweithio iddo
- Eich taith gyrfa, eich sgiliau trosglwyddadwy a'ch llwybr at y sector hwn
- Cyngor i'w rannu gyda'r myfyrwyr ar ddiwedd y sesiwn

**Canslo sesiwn:**

Os oes angen i chi ganslo'r sesiwn ar fyrrybudd, cysylltwch â'r hwylusydd yn uniongyrchol ar ei ffôn symudol.

Future First

## Gwybodaeth Ddiogelu

**Mae'r arweiniad canlynol yn berthnasol i wirfoddolwyr sy'n mynychu gweithgaredd Future First.**

- Gweithredwch mewn modd proffesiynol gyda'r myfyrwyr bob amser, gan sicrhau bod eich straeon a'ch gwybodaeth yn briodol ar gyfer y grŵp oedran hwn.
- Peidiwch â rhannu manylion cyswllt / cyfeiriad e-bost personol gyda'r myfyrwyr / derbyn ceisiadau Facebook ac ati. Peidiwch â thynnu lluniau o'r myfyrwyr.
- Os oes gennych berthynas ag un o'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y sesiwn (e.e. brawd neu chwaer, rhiant, ffrind teulu), hysbyswch yr hwylusydd Future First o flaen llaw. Gofynnwn i chi ymddwyn mewn modd mwy ffurfiol a phroffesiynol gyda nhw yn ystod y sesiwn, er mwyn sicrhau cysondeb.
- Beth i'w wneud os yw gwirfoddolwr yn amau y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed:
  - Ni allwch addo cyfrinachedd – ceisiwch dawelu meddwl y myfyriwr ac egluro mai dim ond y bobl sydd angen gwybod a fydd yn cael gwybod.
  - Peidiwch â chynhyrfu a cheisiwch dawelu meddwl y myfyriwr. Peidiwch â chyfweld y myfyriwr na gofyn cwestiynau arweiniol. Gofynnwch i'r myfyriwr geisio egluro'r hyn y mae'n ceisio ei ddweud.
  - Hysbyswch yr aelod staff Future First yn ochelgar a chyn gynted ag y bo modd (efallai ar ddiwedd y sesiwn).
- Os oes unrhyw beth arall sy'n peri pryder i chi – e.e. iechyd meddwl, bwlio, cyfeiriadau at ymddygiad anghyfreithlon – rhannwch hynny gyda Future First yn ystod neu ar ddiwedd y sesiwn.

**Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion cymorth ychwanegol cyn y digwyddiad fel y gallwn wneud pob ymdrech i ddiwallu eich anghenion. Ffoniwch yr hwylusydd ar y rhif uchod os hoffech chi drafod hyn.**

## Nodiadau Briffio Enghreifftiol:

Defnyddiwyd yr enghraifft hon o nodiadau briffio ar gyfer cyfres o sgyrsiau gan gyn-fyfyrwyr a gynhaliwyd mewn ysgol uwchradd. Dylid dilyn polisi diogelu'r ysgol neu'r coleg bob amser, hyd yn oed os ydych chi'n adnabod y cyn-fyfyriwr sy'n gwirfoddoli'n dda.

Mae'n ddefnyddiol rhoi manylion cyswllt yr arweinydd gweithredol i wirfoddolwyr fel y gallant gysylltu ag ef / hi os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu faterion a allai eu rhwystro rhag cyrraedd y gweithgaredd. Mae hyn hefyd yn ffordd o ddod i adnabod y cyn-fyfyrwyr a sicrhau eu bod nhw'n gwybod pwy i ofyn amdano yn y dderbynfa.



# Gwneud y mwyaf o ddigwyddiadau

Pan fyddwch wedi gwahodd gwirfoddolwyr alumni i fynychu digwyddiad, byddem yn argymell defnyddio'r canllaw rheoli gwirfoddolwyr safon aur hwn. Mae gwneud i'ch gwirfoddolwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn allweddol o ran eu gwneud nhw i deimlo'n gartrefol a'u hannog i ddod yn ôl yn y dyfodol.

## PEIDIWCH

- Peidiwch â gadael eich gwirfoddolwyr ar eu pennau eu hunain gyda myfyrwyr, hyd yn oed os ydynt wedi cael gwiriad DBS.
- Peidiwch â cheisio cynnal sesiwn heb gymorth cyd-weithiwr sy'n gyfarwydd â mwyafrif y myfyrwyr.
- Ceisiwch annog myfyrwyr i fod yn brydlon i'r sesiwn ac i beidio â gadael hanner ffordd trwy'r sesiwn er mwyn mynychu gwers arall.
- Peidiwch â gadael eich gwirfoddolwyr yn aros amdanoch yn y dderbynfa – wrth gwrs, mae hynny'n anodd ar adegau oherwydd llwyth gwaith, felly gofynnwch i gydweithiwr gwrdd â'r gwirfoddolwr os nad ydych yn gallu gwneud.

## Y PETHAU SYLFAENOL

- Gwnewch yn siŵr bod eich gwirfoddolwyr yn gwybod pwy i ofyn amdano yn y dderbynfa.
- Trefnwch le parcio i'ch gwirfoddolwyr a'u hysbysu os oes darpariaeth parcio ar gael.
- Os yw eich sesiwn yn para trwy'r dydd, darparwch ginio i'ch gwirfoddolwyr a dŵr i'w yfed yn ystod y sesiynau.
- Sicrhewch eich bod wedi archebu'r ystafell ac wedi paratoi'r ystafell cyn i'r gwirfoddolwr gyrraedd.
- Os yw'r gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn nifer o sesiynau, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n cael digon o egwyliau.
- Diolchwch i'r gwirfoddolwr ar ddiwedd y sesiwn a phwysleisiwch pa mor werthfawr oedd ei gyfraniad.

## SAFON AUR

- Darparwch luniaeth wrth iddyn nhw gyrraedd.
- Trefnwch bod ystafell ar gael er mwyn briffio'r gwirfoddolwr cyn cychwyn y sesiwn.
- Hyrwyddwch y digwyddiad ar Twitter, cyn ac yn ystod y sesiwn, gan gynnwys y gwirfoddolwr yn y neges os oes ganddo gyfrif.
- Gofynnwch am adborth, gan bwysleisio ei bwysigrwydd.
- Trefnwch fod rhywun yn cymryd ffotograffau a chymrwch ffotograff o'r grŵp ar ddiwedd y sesiwn.
- Darparwch gyfle i'r gwirfoddolwr fynd ar daith o amgylch yr ysgol, neu i gwrdd â'i hen athrawon. Yn aml, mae cyn-fyfyrwyr yn hiraethus ac yn emosiynol wrth ddychwelyd.
- Rhannwch unrhyw straeon am effaith cadarnhaol ar ôl y digwyddiad.

Future First

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Os ydych chi eisiau siarad â ni am sut y gallwn eich cefnogi chi i sefydlu, ymgysylltu a datblygu rhwydwaith cynaliadwy, cysylltwch â'n tîm arbenigol.

---

+44 (0)20 7239 8933
info@futurefirst.org.uk

Future First
86-90 Paul Street
London
EC2A 4NE

futurefirst.org.uk futurefirstorg
futurefirstorg Future First